Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Ebrill – Mehefin 2025–2026

## Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:

### Ebrill – Mehefin 2025: Data o'r ddalfa


| Cyfanswm yr oedolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yr unigolion rhyngryw | Cyfanswm yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1,837 | 91 | 1,928 | 1,583 | 331 | 1 | 13 |



Ebrill – Mehefin 2025–2026

## Ebrill – Mehefin 2025: Data o ymweliadau annibynnol â dalfeydd

| Nifer yr ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa adeg ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr oedolion wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa nad yw ar gael | Nifer yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm yr unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm yr unigolion gwrywaidd wedi'u cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion benywaidd wedi'u cadw yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 41 | 131 | 125 | 6 | 10 | 16 | 11 | 115 | 16 |





Ymweliadau annibynnol â dalfeydd gweithredol: 13


- Sir Benfro: 5
- Powys: 3
- Ceredigion: 2
- Sir Gaerfyrddin: 3


*Ar hyn o bryd, mae tri ymgeisydd newydd yn y broses o gael eu hyfforddiant cynefino. Mae tri gwirfoddolwr hefyd yn aros i gael eu fetio, a phedwar gwirfoddolwr yn cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*


Ebrill – Mehefin 2025–2026

**Amseroedd ymweliadau:**



**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun:**

**Materion o ran staffio**

- Bu dau ymweliad lle nodwyd pryderon o ran staffio yn y Drenewydd ac yn Nafen. Yn y Drenewydd, mynegodd yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol bryderon ynghylch cydnerthedd, o ystyried bod rhingyll a fu’n gwasanaethu yno ers amser maith ar fin gadael, a bod disgwyl i’r haf fod yn brysurach nac unrhyw gyfnod arall. Mae’r heddlu wedi rhoi sicrwydd bod cynlluniau ar waith i gyflenwi ar gyfer swyddogion y ddalfa ac na fydd unrhyw effaith ar y ddarpariaeth dros gyfnod yr haf.

**Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, galwadau opsiwn 1 ac eitemau crefyddol**

- Mae problemau sy’n gysylltiedig â darpariaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gyd wedi deillio o brinder ymarferwyr sefydlog yn y ddalfa yn Aberhonddu. Mae pryderon yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn ymwneud â’r canlynol:
  - Anawsterau o ran cael mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol o bell i gael cyngor meddygol ynglŷn ag unigolion a gedwir yn y ddalfa.
  - Y straen ar staff y ddalfa i fod yn ymwybodol o gefndir meddygol yr unigolion a gedwir yn y ddalfa a gwneud penderfyniadau ar sail hynny.
  - Os oes angen trosglwyddo unigolyn a gedwir yn y ddalfa i weld gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, neu os oes angen triniaeth ysbyty arno, gallai hon fod yn daith sy’n cymryd yn hwy na 90 munud.

Mae’r heddlu wedi ymateb gan nodi nad yw’r contract meddygol yn cynnwys darpariaeth sefydlog ar gyfer Aberhonddu oherwydd problemau sy’n ymwneud â’r gost ariannol o’i gymharu â’r angen a’r galw yn y ddalfa. Aberhonddu sydd â’r lleiaf o alw o’i gymharu â dalfeydd eraill, ac mae’r contractwr newydd wedi gweithredu system feddygol o bell i ganiatáu i staff y ddalfa ymgynghori â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gyfer yr unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd ag anghenion risg isel. Mae’r heddlu’n cyfarfod â’r contractwr yn fisol ac maent yn mynd ati yn

weithredol i oresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â'r system feddygol o bell. Os oes gan unigolyn a gedwir yn y ddalfa arwyddion o boenau yn y frest, anaf i'r pen, neu unrhyw anaf neu anhwylder difrifol arall, dylid ei gludo i'r ysbyty ac nid i'r ddalfa yn y lle cyntaf. Dyna'r broses sydd wedi bod ar waith erioed, ac mae hynny'n berthnasol i'r unedau sefydlog hefyd. Mae'r broblem o ran pellter i'r ysbyty neu drosglwyddo i ddalfa gyfagos yn rhan o'r heriau unigryw y mae ardal Heddlu Dyfed-Powys yn eu hwynebu oherwydd ei hardal ddaearyddol, ac mae'r mater hwn y tu hwnt i'w rheolaeth. Bydd yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn parhau i fonitro.

**Atgyweiriadau**

- Codwyd nifer o bryderon o ran atgyweirio gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd yr atgyweiriadau hyn yn cynnwys y canlynol:
  - **Y Drenewydd** – Problemau gyda synwyryddion tymheredd y system wresogi, seinwyr celloedd ddim yn gweithio, celloedd ddim ar gael oherwydd problemau gyda'r cyflenwad dŵr, lleoliad monitorau yn rhwystro staff y dderbynfa, a phroblemau gyda'r anadliedydd.
  - **Aberhonddu** – Problemau gyda llif dŵr mewn dwy gell, a'r cofnod diogelwch wrth wresogi bwyd ar goll.
  - **Aberystwyth** – Mae arwyneb pren gwelyau'r celloedd wedi treulio ac nid ydynt yn hylan. Nid yw clwyd y buarth yn weithredol ychwaith.
  - **Dafen** – Problemau gyda'r toiled ddim yn fflysio yn un o'r celloedd, ac roedd y seinydd mewn cell arall yn ddiffygiol.
- Mewn perthynas â'r holl atgyweiriadau, mae'r rhain bellach wedi'u cywiro gan yr heddlu. Mae'r ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn monitro pa mor hir y mae'r atgyweiriadau hyn yn para er mwyn sicrhau bod effeithlonrwydd y ddalfa yn weithredol yn gyson.

**Oedi cyn mynd i'r ddalfa**

- Yn ***Aberystwyth***, roedd y problemau parhaus gyda chlwyd buarth y ddalfa yn atal yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol rhag cael mynediad ar unwaith. Mae'r heddlu wedi datgan bod atgyweiriadau i'w cynnal yn Aberystwyth ym mis Gorffennaf.

**Hygyrchedd o ran anabledd**

- Yn ***y Drenewydd***, nodwyd gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol bod yr holl welyau a chyfleusterau toiled yn isel iawn ar gyfer carcharorion hŷn a charcharorion eraill sydd â phroblemau symudedd. Os oes angen toiled ar unigolion anabl (gyda bariau ychwanegol), rhaid i'r unigolion a gedwir yn y ddalfa wasgu'r botwm galw yn y gell ac aros i staff fynd gyda nhw i'r uned llesiant anabledd sengl yn y ddalfa. Mae'r heddlu wedi dweud bod matresi trwchus ar gael ar gyfer y rhai sydd â gwelyau isel, a'u bod wedi'u prynu pan ailagorwyd y ddalfa ym mis Ebrill. Mae gwelyau'r ddalfa yn isel er mwyn darparu ar gyfer y rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae toiled ar gyfer unigolion anabl ar gael yn y brif ddalfa, gyda chadair olwyn ar gael hefyd i gynorthwyo'r rhai sydd angen ei gyrchu. Oherwydd pryderon ynghylch crogi, nid oes gan gelloedd mewn unrhyw ddalfa fariau i roi cymorth gyda symudedd.

**Sylwadau cadarnhaol**

- Gwnaeth yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol nifer o sylwadau cadarnhaol yn ystod y chwarter diwethaf. Ar dri achlysur, nodwyd gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol pa mor groesawgar oedd staff y ddalfa:

*- "Roedd swyddogion a staff y ddalfa yn groesawgar iawn. Cawsom lawer o wybodaeth am yr unigolion a oedd wedi'u cadw yn y ddalfa, ac wrth ymweld ag un o'r unigolion a oedd wedi cytuno i siarad â ni, bu'n canmol swyddogion y ddalfa yn fawr yn ystod y broses gofrestru ac yn ystod y cyfnod yr oedd wedi'i dreulio yn y ddalfa hyd at y pwynt hwnnw."*

*- "Cawsom groeso cynnes gan ringyll y ddalfa a Swyddog y Ddalfa a Thywys. Roedd yr awyrgylch yn bwyllog ac yn dawel. Cawsom wybodaeth yn ymwneud â'r unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa a chawsom daith o amgylch y ddalfa gan y rhingyll.*

*- "Er bod y ddalfa yn brysur iawn, cawsom ein hebrwng i'r celloedd i siarad â'r unigolion wedi'u cadw yn y ddalfa, ac arsylwi arnynt."*

*- "Roedd y ddau aelod o staff yn y ddalfa yn drefnus ac yn groesawgar iawn. Doedd dim byd yn ormod o drafferth."*

- Cyfeiriodd yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol hefyd at broffesiynoldeb staff y ddalfa o dan amgylchiadau anodd:

- *“Roedd y staff wedi cael noson anodd a larwm affräe. Roedd y ddau unigolyn wedi’u cadw yn y ddalfa bellach yn cysgu, ond roedd y ddau wedi achosi problemau, gan gynnwys ymosod ar y nyrs. Roedd y nyrs yn iawn ac wedi ymadael â’r adeilad. Gweithiodd yr holl staff yn yr orsaf honno a’r ddalfa mor galed a phroffesiynol i ddad-ddwysáu’r sefyllfa. Dilynwyd arferion proffesiynol iawn gan swyddogion medrus.”*

- *“O ystyried ymddygiad yr unigolyn wedi’i gadw yn y ddalfa, dylid canmol y ddalfa a’r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol am y sylw a roesant i anghenion y dyn, er gwaethaf ei ymddygiad ofnadwy.”*

**<u>Materion ‘eraill’ a nodwyd</u>**

- **Eitemau crefyddol** – Yn ***Nafen***, nodwyd gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol ar ddau achlysur y modd amhriodol yr oedd eitemau crefyddol yn cael eu storio; yn benodol, nad oedd y Quran, y Testament Newydd a matiau gweddïo yn y gorchuddion plastig priodol. Nodwyd hefyd eu bod yn cael eu storio ar fwrdd triniaeth wyneb i waered a oedd, yn ôl pob tebyg, wedi’i orchuddio â dail te neu bowdr coffi. Mae’r eitemau bellach wedi cael eu hadleoli ar silff ac yn cael eu cadw yn y modd priodol a pharchus y disgwylir.
- **Cardiau mynediad** – Nid oedd staff y ddalfa yn ***Aberystwyth*** yn ymwybodol o’r datblygiad o ran cael cardiau mynediad newydd. Canfuwyd bod system newydd yn cael ei gosod yn ystod y cyfnod adnewyddu yn yr haf.
- **Ymholiad am y contract glanhau** – Yn Hwlffordd ac Aberystwyth, bu’r ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn holi ynghylch manylion presennol y contract glanhau gan nad oes cysondeb i’w weld o ran safonau. Mae gofyniad i lanhau’n drylwyr yn rheolaidd, yn enwedig yn yr ardaloedd meddygol a’r ardaloedd bwyta. Holodd yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol ynglŷn â’r darpariaethau a oedd ar waith i sicrhau bod y gofynion glanhau hyn yn y contract yn cael eu dilyn. Ar hyn o bryd, mae’r ystafell doiled wydr yn cael ei defnyddio i storio offer glanhau yn Aberystwyth, a nodwyd gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn Hwlffordd fod y nyrs gofal iechyd proffesiynol, o’i gwirfodd ei hun, wedi clirio’r ystafell fforensig gan ei bod yn ymddangos ei bod wedi’i defnyddio i storio eitemau a bod angen ei glanhau’n drylwyr eto. Dywedodd yr heddlu fod y glanhäwr rheolaidd yn Hwlffordd wedi bod i ffwrdd yn sâl, a chytunwyd bod safon y

gweithwyr dros dro yn isel o'u cymharu â'r hyn a geid gan y glanhäwr arferol. Yn achos Aberystwyth, y gobaith yw y bydd y broblem o ran storio offer glanhau yn cael ei datrys unwaith y bydd y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau yn ystod yr haf.

- **Golch** – Yn ***Hwlffordd***, mae dosbarthu'r golch yn parhau i fod yn broblem. Ar hyn o bryd, mae gofyn i swyddogion y ddalfa a thywys fynd i chwilio am flancedi coll. Mae hyn hefyd yn digwydd yn Aberystwyth, lle nad yw'r eitemau a anfonir i'w glanhau yn cael eu dychwelyd, neu mae eitemau gwahanol (lliw gwahanol) yn cael eu dychwelyd yn eu lle. Canfuwyd hefyd y gallai'r darparwr contract presennol ar gyfer y golch fod wedi'i leoli yng Ngwlad yr Haf, Lloegr, a bu'r ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn holi a oedd hyn yn ymarferol ac a ellid defnyddio cwmni mwy lleol.
- **Atal sgwrs ag unigolyn wedi'i gadw yn y ddalfa** – Cafodd yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol eu hatal rhag gweld unigolyn ifanc yn y ddalfa ar y sail ei fod yn agored i niwed ac nad oedd ganddo oedolyn priodol yn bresennol. Heriwyd hyn gan yr ymwelwyr dalfeydd annibynnol gan fod yr hawl ganddynt i siarad â phob unigolyn a gedwir yn y ddalfa, oni bai eu bod yn gwrthod cydsynio neu'n peri risg o niwed iddynt eu hunain neu i eraill. Mae'r heddlu wedi gwneud ymholiadau ac wedi rhoi cyfarwyddyd i ringyll y ddalfa, a gafodd ei atgoffa o'r protocol hwn ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.

**<u>Cyfarfod ynghylch perfformiad y ddalfa</u>**

- Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) yn parhau i fynychu cyfarfodydd ynghylch perfformiad y ddalfa yn fisol, sef fforwm a gynhelir gydag arolygwyr dalfeydd lleol i drafod meysydd o arfer da a meysydd i'w gwella. Yn y cyfarfodydd hyn, rhoddir pwyslais sylweddol ar y materion canlynol:
  - Plant a gedwir yn y ddalfa
  - Benywod a gedwir yn y ddalfa
  - Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
  - Adolygiadau cysgu
- Mae SCHTh wedi cael gwahoddiad i ddod i ddeall rhai o'r heriau a brofir yn y ddalfa ac i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â chanfyddiadau ymweliadau annibynnol â dalfeydd a Phanel Craffu Annibynnol y Ddalfa.

- Mae gwybodaeth a ddysgir o’r cyfarfodydd hyn yn cael ei rhannu ag ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn eu diweddariadau wythnosol at ddibenion gwyliadwriaeth.

**Recriwtio**

- Mae gennym dri recriwt newydd sydd i fod i dderbyn eu hyfforddiant cynefino yn Aberhonddu ar 17 Gorffennaf, a fydd wedi’u lleoli ym Mhowys.
- Mae gan SCHTh dri gwirfoddolwr arall sy’n aros am eu gwiriad fetio, a fydd wedi’u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.
- Mae SCHTh wedi ymrwymo i gefnogi profiad ein gwirfoddolwyr gyda’r cynllun ac unrhyw gyfleoedd allanol sydd ar gael iddynt, a all gynnwys mynd ar wyliau, cyfleoedd cyflogaeth neu wirfoddoli, gyda’r bwriad o ddychwelyd i’r cynllun a/neu gael amser i ffwrdd i ddadflino. Mae gan SCHTh bedwar aelod ar seibiant ar hyn o bryd.

**Diwrnod y Gwirfoddolwyr**




- Ar 3 Mehefin 2025, a hithau'n Wythnos y Gwirfoddolwyr, trefnodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), ar y cyd â'r heddlu, ddigwyddiad ar gyfer ein hymwelwyr dalfeydd annibynnol i ddiolch yn bersonol iddynt. Daeth y digwyddiad, o'r enw *'Dathlu Ein Gwirfoddolwyr – Bore Gyda'r Comisiynydd'*, â gwirfoddolwyr o'r tri chynllun a gydlynir gan SCHTh ynghyd. Bu'n gyfle i ddiolch a chydnabod y rôl hanfodol y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae i wneud plismona'n fwy tryloyw, yn gynhwysol ac yn atebol. Clywodd y gwesteion gan y CHTh a'r Prif Arolygydd Jenna Jones, ac yna cafwyd sesiwn holi ac ateb agored lle gwahoddwyd gwirfoddolwyr i rannu eu barn a'u profiadau.
- Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn:
  *"Roedd yn bleser mawr treulio amser gyda chynifer o'n gwirfoddolwyr ymroddedig heddiw, a chael y cyfle i ddiolch iddyn nhw yn bersonol. Boed yn cynorthwyo arolygiadau dalfa, yn rhoi adborth i ddioddefwyr, neu'n cynnig cyngor annibynnol, mae pob gwirfoddolwr yn cyfrannu at wasanaeth heddlu gwell a mwy agored."*
- I gydnabod 25 mlynedd o wasanaeth ymwelydd annibynnol â'r ddalfa, sydd newydd ymadael, cyflwynwyd plac gan y CHTh i goffáu ei amser a chydnabod ei ymrwymiad rhagorol i'r rôl. I gael rhagor o fanylion am y digwyddiad, gallwch ymweld â'n gwefan yma.

**Fframwaith Sicrhau Safonau Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol**

- Mae Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol newydd lansio ei thrydydd iteriad o'r Fframwaith Sicrhau Safonau. Dyma fframwaith Cymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, sydd â chasgliad o feini prawf wedi'u cynllunio i helpu cynlluniau

ymweliadau annibynnol â dalfeydd i feincnodi, eirioli dros adnoddau ac anelu at ragoriaeth. Bydd yr asesiad yn cael ei gynnal dros gyfnod o 12 mis o fis Ebrill 2025 hyd at fis Ebrill 2026. Bydd pedwar lefel o gydymffurfedd – Cydymffurfio â'r Cod, Arian, Aur a Phlatinwm, gyda phob lefel yn cynnwys meini prawf cronnus gwahanol. Mae SCHTh yn bwriadu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r ymwelwyr dalfeydd annibynnol ar unrhyw gynnydd a wneir yn ystod y cyfnod asesu, ac mae'n parhau i ymdrechu i wella'r ffordd y caiff y cynllun ei reoli o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Ym mis Tachwedd 2023, dyfarnwyd lefel cydymffurfedd Aur i SCHTh.

**Hyfforddiant a dysgu**

- Yn ystod y chwarter diwethaf, mae ymwelwyr dalfeydd annibynnol wedi cael cyfleoedd i ddysgu am y canlynol:
  - **Ymgyrch Nova**, elusen a sefydlwyd i gynorthwyo cyn-filwyr sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol o Gymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.
  - Cyfres fer gan y BBC am y cynllun ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn Swydd Gaerloyw – gallwch wrando ar y penodau yma:BBC Radio Gloucestershire – Nicky Price.
  - Learning the Lessons – Rhifyn 45: Violence Against Women and Girls. Cyhoeddiad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, sy'n rhannu mewnwelediadau ac argymhellion allweddol o ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Gallwch ddarllen y rhifyn yn llawn yma.
  - Canllawiau ar weithdrefnau y ddalfa yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys ar y diffiniad o 'fenyw', oherwydd dyfarniad y Goruchaf Lys, sy'n diffinio rhyw menyw yn ôl ei bioleg ar adeg ei geni.
  - Mae cywerthedd mewn gofal iechyd yn nalfeydd yr heddlu, menter ymchwil gan Brifysgol Newcastle, yn mynd i'r afael â diffyg safonau gofal iechyd clir yn nalfeydd yr heddlu. I gael rhagor o wybodaeth am yr ymchwil, gallwch ddarllen adroddiad diwedd y prosiect yma. Gallwch hefyd ymweld â gwefan y prosiect yma.
  - Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) yn y Ddalfa – Canllaw ar gyfer bod yn y ddalfa i unigolion ag ADHD. Mae llyfryn wedi'i gyd-gynhyrchu gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a'r Gynghrair ADHD sydd wedi'i anelu at unigolion ag ADHD sydd wedi'u cadw yn y ddalfa gan yr heddlu. Gallwch lawrlwytho'r llyfryn a'r ddogfen ganllaw ar y dudalen 'ADHD in Custody' yma.

- Hyfforddiant hiliaeth yn y ddalfa ac mewn plismona, a ddarperir gan Gymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol i hyrwyddo gwrth-hiliaeth ac ymwybyddiaeth o wahaniaethu, a'i hyd a'i led o fewn yr heddlu ac yn y ddalfa.
- Gwefan Know My Rights, adnodd pwysig newydd a gynlluniwyd yn benodol i gynorthwyo plant a phobl ifanc o dan 18 oed sy'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu. Mae'r wefan yn helpu pobl ifanc i ddeall eu hawliau ar adeg pan maent yn arbennig o agored i niwed. Gallwch weld y wefan yma.
- Hyfforddiant cyfweld - cyfle i ymwelwyr dalfeydd annibynnol gael hyfforddiant cyfweld gan fod SCHTh yn awyddus i ymwelwyr dalfeydd annibynnol fod yn rhan o'r broses gyfweld wrth asesu ymgeiswyr newydd sydd am ymuno â'r cynllun.

**Gwobrau Heddlu Dyfed-Powys**

- Mae SCHTh wedi rhoi'r cynllun ymweliadau annibynnol â dalfeydd ar restr fer rownd derfynol Gwobrau Heddlu Dyfed-Powys, gyda seremoni wedi'i chynllunio ar gyfer 4 Gorffennaf. Fel rhan o'r broses enwebu, dywedodd SCHTh fod bodolaeth y cynllun yn hanfodol er mwyn rhoi hwb i ymddiriedaeth y cyhoedd i sicrhau bod unigolion a gedwir yn y ddalfa yn ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu trin â pharch ac urddas. Mae'r cynllun ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn gweithredu fel mecanwaith goruchwylio diduedd sy'n cryfhau hyder y gymuned mewn plismona, yn meithrin gwell didwylledd wrth orfodi'r gyfraith, ac yn helpu i nodi problemau a mynd i'r afael â hwy ymhellach. Mae eu hymweliadau'n tynnu sylw at y gwaith da y mae staff y ddalfa yn ei wneud yn ddyddiol, ac yn cynorthwyo'r cyhoedd drwy sicrhau bod yr unigolion a gedwir yn y ddalfa yn deall bod eu hawliau, eu llesiant a'u hanghenion yn cael eu diogelu.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Ebrill – Mehefin 2025–2026

**Ymateb yr heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma farn y Prif Arolygydd Jenna Jones, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys wrth iddi fyfyrio dros y chwarter diwethaf:

*"Mae hwn wedi bod yn chwarter prysur iawn i'r cynllun ymweliadau annibynnol â dalfeydd. Roedd yn braf gweld bod y cynllun wedi cael ei enwebu ar gyfer gwobrau'r heddlu i gydnabod y gwaith y mae'r ymwelwyr yn ei wneud yn eu hamser eu hunain i sicrhau bod y ddalfa yn amgylchedd diogel i'r rhai sy'n treulio amser yno, a'u bod yn cael eu trin yn deg. Roedd hefyd yn bleser bod yn rhan o Ddiwrnod y Gwirfoddolwyr ym mis Mehefin, a chael y cyfle i ddiolch i'r ymwelwyr dalfeydd annibynnol am eu hamser a'u cymorth yn y rôl y maent yn ei chyflawni, a'r gwelliannau y maent yn cyfrannu atynt yn y dalfeydd ar draws yr heddlu.*

*Mae nifer o faterion wedi dod i sylw gwasanaethau'r ddalfa ac arolygwyr y ddalfa dros y tri mis diwethaf, ac efallai y byddai llawer ohonynt wedi'u methu oni bai am adroddiadau'r ymweliadau annibynnol â dalfeydd. Mae rhai o'r problemau yn ymwneud â'r ystadau wedi'u datrys, ond os yw ymweliadau annibynnol â dalfeydd yn canfod nad yw rhai o'r problemau wedi cael sylw o fewn yr amserlen briodol, gallaf uwchgyfeirio'r mater neu gael gwybod am yr oedi gan y rheolwr ystadau ac adrodd yn ôl.*

*Mae'r contract meddygol wedi gwneud gwelliannau sylweddol ar draws yr heddlu, gan leihau'r trosglwyddiadau o ganlyniad i gyflenwi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o dros 35 o drosglwyddiadau'r mis i un ffigur. Mae'r trosglwyddiadau hyn o ganlyniad i brinder gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sefydlog yn Aberhonddu, ond wedi dweud hynny, un ffigur ydyw bob mis. Credaf mai pum unigolyn a gafodd eu cadw yn y ddalfa a'u trosglwyddo ym mis Mehefin, naill ai i'r Drenewydd neu i Ddafen.  Rydym yn parhau i fonitro'r galw drwy gadw golwg ar nifer yr unigolion sydd wedi'u cadw yn y ddalfa ac yn dod i'r uned, trosglwyddiadau o'r uned a galwadau Visionable (gwasanaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o bell). Mae Gwasanaethau'r Ddalfa a TG yn gweithio gyda MITIE (darparwr contract gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) i osod y feddalwedd Visionable ar holl gyfrifiaduron ystafelloedd meddygol yr heddlu fel y gall pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ateb y galwadau, nid dim ond yr uwch-weithwyr gofal iechyd proffesiynol.*

Ebrill – Mehefin 2025–2026

| |
|---|
| *Roeddwn yn falch o ddarllen yr adroddiadau am gydberthnasoedd gwaith da a'r gefnogaeth a ddangoswyd i'r ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn ystod eu hymweliadau gan staff y ddalfa. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n ei hyrwyddo gyda'r arolygwyr, ac yn ystod fy ymweliadau â'r unedau.*<br><br>*Edrychaf ymlaen at y cyfarfod chwarterol i drafod unrhyw faterion pellach a gweithio gyda chi i wneud gwelliannau parhaus yn unedau'r ddalfa."* |